

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 05/06/17

PRESENNOL: Cynghorwyr: Gwyn Morris Jones (cadeirydd), John Emlyn Jones (cofnodwr), Gwilym Williams, John Lloyd Williams.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Austin Roberts, Arthur Williams a Ceri Leeder.

DATGAN DIDDORDEB: DIM

COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF: Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (09/05/17)

MATERION YN CODI:

Arwydd Canolfan Bwyd Cymru - Mae'r Cyngorydd Austin Roberts wedi derbyn cydnabyddiaeth yn unig o'i e-bost.

Y Diffibrilydd -Mynegodd y Cyngorydd John Lloyd Williams bod ysgrifennydd pwyllgor y Neuadd yn fodlon i roddi caniatâd i osod arwydd ar y Neuadd. Mae'r Cyngorydd Austin Roberts yn disgwyl am ymateb gan swyddogion y Sir am y posibilrwydd o osod arwyddion ar y polion arwyddion ffordd.

Sŵn Cŵn yn Cyfarth- Deallwyd fod swyddogion o'r Cyngor Sir wedi bod yn ymweld â'r pentref pedair gwaith. Derbyniwyd rhagor o gwynion fod y cŵn yn cyfarth am 6:30 y bore a 10:30 yn y nos.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Cyngorydd Austin Roberts i godi'r mater eto gyda swyddogion y Cyngor Sir.

Y Polyn Fflag - Cafwyd ymweliad safle ar derfyn y cyfarfod diwethaf.

Penderfynwyd: Cytunodd y Cynghorwyr Gwilym Williams a Gwyn Morris Jones drefnu amser i wneud y gwaith.

Noson Tân Gwyllt- Mae'r Cadeirydd wedi cael gair gyda llywydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol, Mr Danny Sheard, i weld os oedd ganddynt ddiddordeb mewn trefnu'r noson. Roedd Mr Sheard angen rhagor o wybodaeth cyn rhoi ateb.

Penderfynwyd: Cytunodd y Cyngorydd John Emlyn Jones gysylltu gyda Mr Sheard i roddi mwy o wybodaeth iddo.

Baner- Deallwyd fod y faner wedi ei harchebu.

Cyffordd Ffordd Eglwys Bach a Heol Martin - Dim datblygiad pellach

Gwefan y Cyngor: Adroddodd y Cyngorydd John Emlyn Jones ei fod wedi cael gair gyda'r person sy'n cartrefu'r wefan a'i bod yn anodd gwneud unrhyw beth heb dalu yn fisol i gwmni allanol.

Penderfynwyd: Cytunodd y Cyngorydd Gwyn Morris Jones holi ymhellach gydag un sy'n creu gwefannau.

Sgip Cymunedol: Roedd CBS Conwy wedi methu darparu sgip ar y dyddiad addawyd. Achosodd hyn anhwylustod i nifer o drigolion yr ardal. Trefnwyd i'r sgip ddod ar y dyddiad

nesaf posib sef dydd Gwener Mai 19eg. Ymddiheurodd CBS Conwy am yr anghyfleustra ac ni chodwyd tâl am y sgip y tro hyn. Mynegwyd gwerthfawrogiad y Cynghorydd Austin Roberts am sicrhau hyn.

Penderfynwyd: Trefnu bod y sgip yn dod eto ar ddydd Sadwrn ym mis Hydref.

Hysbysfwrdd- Cafwyd golwg ar wefan cwmni sy'n darparu hysbysfyrddau ar gyfer pentrefi ayb. Trafodwyd rhai mathau posib.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Cynghorydd Austin Roberts i wneud ymholiadau parthed cael caniatâd cynllunio ar gyfer hysbysfwrdd oddeutu 1050 x 1400mm o faint.

Mieri ar wal y Fynwent- Dim byd pellach i'w adrodd.

Ceisiadau Cynllunio - Trafodwyd y ceisiadau cynllunio fel a ganlyn:

0/44005 Y Pandy, Ffordd Pennant - Estyniad a newidiadau mewnol

0/44024 Gronwen, Eglwys Bach Dymchwel adeilad allanol, codi estyniad deulawr, estyniad llawr cyntaf newydd a newidiadau mewnol cyffredinol.

Penderfynwyd: Does gan y cyngor ddim sylwadau ar y ceisiadau.

Taliadau -

Sue Hayward (glanhau toiledau Mai) £122.50
W D Williams (torri glaswellt y fynwent) £330

Adroddiad Ariannol- Sefyllfa ariannol y cyngor yw fel a ganlyn:

Cyfri Cyffredin: £5,836.74
Cyfri Angladdau: £2,512.20
Cyfri Cadw: £2,069.32

Adroddiad yr Archwilydd Mewnol- Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Nodwyd mai dau argymhelliad oedd sef:

1.(mân) Rhaid rhoi esboniad byr o'r amrywiad yn y ffigyrau yn yr Adroddiad Diwedd Flwyddyn mewn llythyr gyda'r datganiadau ariannol i'r Archwilydd Allanol. (h.y. y cynnydd yn y balansau ers llynedd).

2.(mawr)Rhaid i'r aelodau gwblhau Datganiad o Ddiddordeb yn flynyddol, os yn bosib ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, a'u diwygio pan fo angen. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod ganddo broses i sicrhau ei hun fod pob diddordeb yn cael ei ddatgan yn llawn.

Penderfynwyd: derbyn adroddiad yr archwilydd mewnol. Gofyn ym mhob cyfarfod o'r cyngor (yn yr eitem datgan diddordeb) os ydy'r aelodau eisiau diwygio eu ffurflen Datganiad o Ddiddordeb.

Asesiad Risg - Trafodwyd ac ychwanegwyd manylion ar yr asesiad risg.

Materion Prifffyrdd- Nodwyd y materion canlynol:

Ffordd Bodnant: Tyllau wedi ymddangos yn y ffordd rhwng Bodnant a'r Graig.

Ffordd Cae Forys: Dŵr yn codi yng nghanol y ffordd rhwng Capel Bryn Daionyn a'r gyffordd gyda Ffordd Bodnant.

Ffordd Gyffylog: Draeniau wedi blocio mewn cae a dŵr yn llifo i'r ffordd ar y tro 1af am Llindir wrth Gapel Nebo

Penderfynwyd: Tynnu sylw swyddogion y Cyngor Sir at yr uchod.

Gohebiaeth -

Sefydliad y Merched

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mrs Eirwen Kenrick, Llywydd cangen Eglwys Bach o Sefydliad y Merched yn gofyn am gyfraniad tuag at ddigwyddiad ar gyfer y gymuned i gyd yn Neuadd y Pentref ar Fehefin 17eg er cof am Jo Cox.

Penderfynwyd: Cyfrannu £25 er mwyn talu am gostau hurio'r neuadd a'r gegin.

Adran Rheoleiddio a Thai CBS Conwy

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Adran Rheoleiddio a Thai CBS Conwy yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at barhau i gyflogi Llysgenhadon Conwy i geisio cadw Conwy yn lân.

Penderfynwyd: Ceisio rhagor o wybodaeth gan yr adran cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Gweithdy Cynllunio-

Hysbyswyd y cyfarfod bod gweithdy cynllunio wedi ei drefnu ar gyfer Mehefin 20fed. Mynegodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones ddiddordeb mewn mynychu. Cytunwyd hefyd i hysbysu'r Cynghorydd Ceri Leeder am y gweithdy.

Hysbyseb am gau'r ffordd rhwng Graig a Brymbo

Derbyniwyd rhybydd y bydd y ffordd rhwng Graig a Brymbo yn cau rhwng 6 o'r gloch yr hwyr tan 1 o'r gloch y bore rhwng 19/06/17 a 10/07/17. Bydd goleuadau traffig yn rheoli'r traffig ar bob amser arall.

Penderfynwyd: Oherwydd yr effaith ar drigolion yn pentref, a busnes lleol fel Tafarn y Bee, cytunwyd i ysgrifennu at y Cyngor Sir yn awgrymu cau'r ffordd yn hwyrach ac efallai o 11 y nos tan 5 y bore.

Cyrsiau Un Llais Cymru

Nodwyd bod Un Llais Cymru wedi trefnu cyrsiau ar gyfer cynghorwyr. Mae'r Cynghorwyr i gyd yn derbyn copi drwy e-bost o'r manylion.

Rhybudd o gyfethol cynghorwyr

Hysbyswyd y cyfarfod bod rhybudd wedi ei roddi ar hysbysfyrdau'r pentref a'r papur lleol o'r bwriad i gyfethol ar gyfer y tair sedd wag ar y cyngor. Dyddiad cau 31/06/17.

Terfynwyd y cyfarfod am 9:20

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - Gorffennaf 3ydd am 7:30